CADW CYDWYBOD LÂN MEWN BYD PECHADURUS

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y brodyr i wynebu her datblygu cydwybod dduwiol drwy dynnu eu sylw'n gyntaf at ddylanwadau bydol sy'n effeithio ar ddatblygiad cydwybod lân. Eglurwch sut i feithrin cydwybod lân a'r bendithion a ddaw o ddilyn argymhellion ategwr mewnol sy'n cyd-dystiolaethu (gweler Rhuf 2:15)

MAE CADW CYDWYBOD LÂN MEWN BYD PECHADURUS YN HER (8 mun.)

Mae cynneddf y gydwybod gan bob un

Hi yw ein hategwr mewnol sy'n cyd-dystiolaethu, ein gallu i farnu'n hunain (*it*-1 500)

Yn llythrennol yr ystyr yw gwybod ynghyd, neu wybod am rywbeth o fewn i'r hunan, llais "y galon" (Salmau 51:6; Rhuf 9:1)

O'i ffurfio gan hyfforddiant a phrofiad, gall cydwybod farnu gan amddiffyn neu gyhuddo

Mae'r synnwyr moesol mewnol hwn wedi'i blannu mewn bodau dynol o adeg creu dyn ac yn gynhenid mewn pobl o bob cenedl (Darllen Rhufeiniaid 2:14, 15)

Gellir llygru'r gydwybod a'i throi yn arweiniad ansicr (Tit 1:15, 16)

Golygwedd wyrdroëdig ynglŷn â beth yn hollol yw pechod sydd gan y mwyafrif heddiw

Mae'r duedd gynyddol i 'ddilyn eich mympwy eich hun' wedi arwain at wyrdroadau o bob math

Mae erydu gwerthoedd moesol wedi golygu cydwybodau didostur a dideimlad, a dynion drwg yn mynd o ddrwg i waeth (2Tim 3:1-3, 13)

Anodd yw cadw cydwybod lân mewn awyrgylch lle mae'r 'ysbryd sydd ar waith yn y byd' yn drech (Eff 2:1-3)

PERYGL CYNYDDOL CAEL EIN DYLANWADU GAN Y BYD (12 mun.)

Mae angen bod yn wyliadwrus rhag i garu cyfiawnder a chasau drygioni oeri (Salmau 37:27; Amos 5:14, 15)

Mae dylanwadau bydol yn cynyddu pwysau i ddilyn y dyrfa a gwneud yr hyn sy'n bodloni hunan (Diar 1:10, 11, 13)

Peidiwch byth â bychanu posiblrwydd dylanwad y byd

Gall fod yn erydu graddol ar safonau, fel bod yr hyn oedd yn ffiaidd 'nawr yn dderbyniol neu ganiatadwy

Er enghraifft, dengys profiadau y gall cerddoriaeth lwgr ddylanwadu ar feddwl ac ymddygiad (Ex 32: 1-6, 17, 18; *g*93 2/22 25-7; *g*93 6/8 4-7)

Daeth methiant moesol yn rhywbeth mor eang fel bod y troseddwyr gwaethaf yn dod yn enwogion a ogoneddir (*g*92 1/22 3-5)

Fe erys perygl oherwydd, er bod y mwyafrif o bobl yn cydnabod erydu safonau, maent yn dal i'w derbyn ac yn cyfrannu atynt

Hyn yn arbennig o beryglus i bobl ifanc nad ydynt wedi gweld dim arall ac yn ystyried mai normal yw amodau o'r fath

Nid yw safonau Duw wedi newid (Mal 3:6)

Os derbyniwn olygweddau bydol, byddwn ar ein colled (Rhuf 1:28, 32; 1Cor 6:9, 10)

Byddwn yn annymunol gan Jehofah, a ŵyr y cyfan (Heb 4:12, 13)

Gallwn hefyd faglu eraill (Rhuf 14:13)

Cofiwch yr egwyddor a fynegir yn 1Corinthiaid 8:8-13

Profiad: Cychwynnodd chwaer a oedd yn gymharol newydd yn y gwirionedd adael theatr oherwydd cynnwys tramgwyddus y ffilm a ddangosid. Gwelodd yno henuriad, gyda'i deulu, oedd yn amlwg fwynhau'r ffilm. Arhosodd y chwaer i weld diwedd y ffilm ond dioddefodd gan gydwybod euog am amser hir

Bydd cydwybod addysgedig yn ein rhwystro rhag canlyn llwybr y byd pechadurus (1In 2:15-17)

ER MWYN CADW CYDWYBOD LÂN, SEILIWCH BENDERFYNIADAU PERSONOL AR WYBODAETH GYWIR (15 mun.)

Rhaid i Gristnogion 'gadw cydwybod lân' er gwaethaf pwysau neu wrthwynebiad (Darllen 1 Pedr 3:16, 17)

Rhaid goleuo'r gydwybod, ei hyfforddi yn y safonau cywir

Gall cydwybod a addysgir gan wybodaeth gywir o Air Duw asesu materion yn gywir a'u hunioni nhw (2Tim 3:16)

Ystyriwch esiampl Sacheus (Lc 19:1-8)

Adlewyrchir ehangder gwybodaeth gywir yn y gwastad y gweithreda'r gydwybod arno

Yn hanes pawb bron, barna cydwybod euogrwydd wedi'r weithred (2Sam 24:10; *w*82 7/15 17)

I bobl sy'n gwerthfawrogi ewyllys Duw, fe ddeddfa cydwybod yn erbyn cychwyn ar gwrs gweithredu a gondemnir gan Dduw (Gen 39:9)

Mae "cydwybod lân" yn cwmpasu pob agwedd ar fywyd (Act 24:14, 16; Heb 13:18)

Mae hi'n arwain y sawl sy'n chwilio am waith niwtral (Eseia 2:4; *w*82 7/15 26)

Mae'n cyfarwyddo ymddygiad a llefaru personol (Rhuf 12:18; 1Pedr 2:12)

Mae hi'n arwain at arddangos "y natur ddynol newydd" (Eff 4:22-24)

Mae hi'n derbyn cyfarwyddyd gan henuriaid a'r dosbarth gwas ffyddlon (Heb 13:17)

Rhif 107 5/95 Printed in Britain

Y DAIONI SY'N DEILLIO O GYDWYBOD WEDI'I HYFFORDDI'N ADDAS (10 mun.)

Meithrinwch awydd am gydwybod lân, nid un wan

Byddai cydwybod wan yn awgrymu hyfforddiant anaddas neu annigonol

Bydd cydwybod lân, wedi'i hyfforddi'n addas, yn ein rhybuddio ni'n fuan rhag peryglon

Bydd yn ein cadw ni rhag brifo'n hunain, dylanwadu'n negyddol ar eraill, ac anfodloni Jehofah

Dangosodd Iesu y dylai'n cydwybod ein cymell ni i fanteisio ar gyfleon i wneud pethau anhunanol, anrhydeddus, caredig, annwyl (Lc 10:29-37)

Bydd cydwybod wedi'i hyfforddi'n addas yn ein cymell ni i osod esiampl gywir, gan efelychu Crist (1Cor 11:1)

Byddwn yn poeni ynglŷn â fel yr effeithir eraill gan yr hyn a wnawn, hyd yn oed pan nad oes drwgweithredu (Rhuf 15:1, 2)

Byddwn bob amser yn ceisio heddwch y gynulleidfa (Rhuf 14:15,19-21; *w*91 3/1 21-5; *w*89 2/15 18-20)

Bydd henuriaid yn cynnal eu gallu i helpu eraill (Eseia 32:1, 2)

Mae cydwybod gadarn, weithredol, a glân yn galluogi person sy'n ofni Duw i gael heddwch meddwl a ffafr Jehofah

Fe aiff hi y tu hwnt i ofynion moel rheolau, gan ein llwyr gadw ni rhag pethau sy'n ein anghymeradwyo yng ngolwg Duw (*w*82 7/15 27)

Er byw mewn byd pechadurus, byddwn yn mwynhau'r math o berthynas oedd gan Abraham gyda Jehofah fel "cyfaill Duw" (Iago 2:23)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)